

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 27 Mehefin 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

### Cynnwys

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

#### System Fenthyca Ddarbodus

**C8 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y newidiadau a ddaw i awdurdodau lleol yn sgîl y system fenthyca ddarbodus? (OAQ18533)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Bydd y system arfaethedig yn galluogi awdurdodau lleol i benderfynu drostynt eu hunain gymaint y maent yn gallu benthyg. Bydd yn rhoi iddynt felly raddfa ddefnyddiol o ryddid ariannol ychwanegol. Bydd angen i'r awdurdodau ystyried eu buddsoddiadau cyfalaf yn eu crynswth, gan gadw mewn cof y cymorth refeniw y bydd ei angen, a bydd angen iddynt gynnwys eu cymunedau yn y penderfyniadau hyn.

*Tynnwyd Cwestiwn 9 (OAQ18583) yn ôl.*

#### Technoleg Band Llydan

**C10 Brian Hancock:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch rôl awdurdodau lleol o ran sicrhau mynediad i dechnoleg band llydan? (OAQ18514)

**Edwina Hart:** Mae'r Cynulliad yn cydweithio â'r awdurdodau lleol i adeiladu rhwydweithiau band llydan rhanbarthol a chenedlaethol i'r sector cyhoeddus. Addysg yw prif ysbardun y rhwydwaith presennol, ond mae modd iddo ddarparu cysylltiadau band llydan i ystod ehangach o gyrff Cymru sydd yn y sector cyhoeddus. Yn ogystal â hybu ymwybyddiaeth am y band llydan ymhlith canran eang o'r boblogaeth, bydd y gwaith hwn yn hybu marchnad darparwyr y band llydan yng Nghymru. Mae'r Cynulliad, asiantaethau datblygu economaidd a'r awdurdodau lleol hefyd yn cydweithio i ganfod ffyrdd o gysylltu busnesau, a'r parciau busnes yn benodol, i'r rhwydwaith.

#### Cynllun Cymorth Prynu Cartrefi

**C11 Cynog Dafis:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda'r cymdeithasau tai ynghylch y cynllun cymorth prynu cartrefi? (OAQ18507)

**Edwina Hart:** Nid wyf wedi trafod y cynllun cymorth prynu cartrefi yn benodol â chymdeithasau tai. Yr awdurdodau lleol sydd i benderfynu ar sut i ddefnyddio'r cynllun yn ôl anghenion a blaenoriaethau tai eu hardaloedd. Dylai'r awdurdodau sydd am ddefnyddio'r cynllun gydlynw â phartneriaid sydd yn landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddatblygu rhaglenni sy'n addas i'w rhoi ar waith.

#### Effaith y System Fenthyca Ddarbodus

**C12 Ieuan Wyn Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch effaith y system fenthyca ddarbodus ar awdurdodau lleol? (OAQ18534)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd â Chymdeithasol Llywodraeth Leol Cymru a chynghorau unigol. Trafodir ystod eang o bynciau gan gynnwys y system newydd arfaethedig o fenthyca'n ddarbodus. Mae CLILC o blaid cyflwyno'r system newydd ac mae wedi cytuno cydweithio â'r Cynulliad i ddatblygu manylion gweithredu'r cynllun.

### **Partneriaeth Llywodraeth Leol**

**C13 Rosemary Butler:** A yw'r bartneriaeth llywodraeth leol wedi bod mor flaengar â'r bwriad gwreiddiol, ac a oes cynlluniau gan y Gweinidog i ehangu ei chylch gorchwyl? (OAQ18509)

**Edwina Hart:** Mae'r cyngor partneriaeth wedi chwarae rhan allweddol wrth drafod a datblygu cynigion i fynd i'r afael â'r materion pwysicaf sy'n wynebu llywodraeth leol a'r bobl y mae'n eu gwasanaethu. Mae llywodraeth leol wedi dyfeisio a chyfrannu at ddulliau arloesol o weithio, megis y 22 o gytundebau polisi â'r Cynulliad. Caiff Aelodau'r cyfle i drafod y llwyddiannau hyn pan fydd adroddiad blynyddol y cynllun partneriaeth llywodraeth leol yn cael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn.

### **Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol**

**C14 Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch dyddiad cyhoeddi arfaethedig adroddiad y comisiwn ar drefniadau etholiadol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru? (OAQ18539)

**Edwina Hart:** Caf ar ddeall bod adroddiad y comisiwn i'w gyhoeddi ar 3 Gorffennaf 2002. Yr wyf yn bwriadu gwneud datganiad am yr adroddiad i'r Cynulliad ar 16 Gorffennaf.

### **Cynlluniau Cymorth Prynu Cartrefi (Argaeledd)**

**C15 David Lloyd:** Ym mha ffordd y bydd y Gweinidog yn annog camau i beri bod cynlluniau cymorth prynu cartrefi ar gael ledled Cymru? (OAQ18506)

**Edwina Hart:** Mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu sut y byddant yn defnyddio cynlluniau cymorth prynu cartrefi, yn ôl anghenion a blaenoriaethau eu hardaloedd. Os defnyddir cynlluniau cymorth prynu cartrefi, dylai'r awdurdod lleol a phartneriaid sydd yn landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wneud trefniadau addas ynglŷn â chyhoeddusrwydd. Er mwyn helpu gwneud hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n paratoi taflen sy'n esbonio sut y mae'r cynllun yn gweithredu. Disgwylir i'r daflen fod ar gael yr haf yma ac fe gaiff copïau eu hanfon i'r awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig priodol fel y gallant eu dosbarthu fel y bo'n briodol.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd**

#### **Dinas a Sir Abertawe**

**C7 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Dinas a Sir Abertawe ynghylch ffordd osgoi arfaethedig Hafod? (OAQ18527) [R]

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Cyfarfûm â'r Cynghorydd Burtonshaw, swyddogion Dinas a Sir Abertawe a'r ddiweddar Val Feld, Aelod y Cynulliad dros Ddwyrain Abertawe, i drafod cynigion ffordd osgoi Hafod ar 19 Gorffennaf 2000. Yn y cyfarfod hwnnw cytunwyd bod angen ystyried y cynnig hwn yng nghyd-destun yr adnewyddu a'r adfywio yn y gymdogaeth a datblygiadau trafniadaeth eraill. Gwahoddwyd y cyngor i geisio am gyllid ar gyfer astudiaeth trafniadaeth integredig, a chafodd £50,000 ei neilltuo at y perwyl hwnnw yn 2001-02, ac yr oedd £50,000 ychwanegol ar gael ar gyfer 2002-03 i alluogi'r cyngor i fwrw ymlaen â gwaith a ddeilliai o argymhellion yr astudiaeth.

### Hen Deians

**C8 Brian Hancock:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i leihau'r mynydd o hen deians? (OAQ18570)

**Sue Essex:** Mae'r strategaeth wastraff newydd i Gymru'n nodi bod angen mwy o gyfleusterau i ymdrin â hen deians ac yr ydym yn ystyried y dewision ar y cyd ag Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru. Ar y cyd â Llywodraeth y DU, yr ydym hefyd yn ymgynghori ynglŷn â threfniadau statudol posibl a fyddai'n ymwneud â chyfrifoldeb y cynhyrchwyr.

### Gwasanaethau Bysiau Lleol

**C9 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch ei chynigion i wella'r gwasanaethau bysiau lleol er mwyn bodloni'r cynnydd a nodwyd yn y galw amdanynt yn dilyn cyflwyno tocynnau bws am ddim i bensiynwyr? (OAQ18516)

**Sue Essex:** Yr wyf wrth fy modd bod y cynllun newydd mor boblogaidd, a'i fod yn amlwg yn helpu pensiynwyr a phobl anabl i deithio a chyfrannu. Er ei bod hi'n rhy gynnar i fod yn hyderus ynglŷn â thuaddiadau'r dyfodol, yr wyf yn monitro effaith y cynllun newydd ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r diwydiant, a byddaf yn trafod unrhyw oblygiadau â'n partneriaid pan ddêl yr amser priodol.

### Gorsafoddd Pŵer Niwclear

**C10 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch yr effaith y mae unrhyw orsafoddd ynni niwclear yng Nghymru yn ei chael ar yr amgylchedd? (OAQ18588)

**Sue Essex:** Mae'n rhaid gwneud asesiad o effaith amgylcheddol cyn caniatáu codi gorsaf ynni niwclear. Mae hynny'n wir hefyd o ran eu dymchwel a'u dadgomisiynu. Gwnaed asesiad o effaith amgylcheddol fel rhan o'r broses ddatgomiynu yn Nhrawsfynydd, ac mae copïau ar gael yn y Llyfrgell neu oddi wrth yr awdurdod lleol.

### Ffordd yr A470

**C11 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y gwelliannau arfaethedig i ffordd yr A470 sy'n cysylltu'r De a'r Gogledd? (OAQ18556)

**Sue Essex:** Ein bwriad yw rhoi'r contract i wella ffordd yr A470 rhwng Dolwyddelan i Bont-yr-Afanc yn ddiweddarach yr haf yma. Mae'r flaen-raglen gefnffyrdd, a gyhoeddwyd fis Mawrth, yn cynnwys sawl cynllun a luniwyd i wella cysylltiadau'r ffyrdd rhwng y Gogledd a'r De. Mae 12 cynllun ar raglen y dramwyfa rhwng y Gogledd a'r De, gan gynnwys yr A470, y maent i fod yn barod at ddechrau'r gwaith erbyn Mawrth 2008, yn amodol ar brosesau statudol a'r cyllid sydd ar gael.

### Codi Mastiau Ffôn

**C12 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y canllawiau cynllunio ar godi mastiau ffôn? (OAQ18565)

**Sue Essex:** Mae'r canllawiau datblygu telathrebu, gan gynnwys mastiau, ar gael yn adrannau 12.11 i 13 yn 'Polisi Cynllunio Cymru'. Mae deddfwriaeth ddiwygio arfaethedig, a luniwyd yn bennaf i sicrhau y byddid yn gwella'r ffordd gyfredol o ganiatáu datblygiadau telathrebu ymlaen llaw, i'w thrafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Iau, 18 Gorffennaf. Cyhoeddir 'Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 19: Telathrebu' wedi'i ddiwygio, a fydd yn disodli'r canllawiau yn 'Polisi Cynllunio Cymru', wrth i'r ddeddfwriaeth newydd ddod i rym.

### **Ailgylchu Hen Gerbydau**

**C13 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y sefyllfa ddiweddaraf o ran diwygio'r gweithdrefnau ar gyfer cael gwared ar gerbydau sydd wedi'u gadael, a'u hailgylchu? (OAQ18589)

**Sue Essex:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod y problemau a achosir pan fo cerbydau'n cael eu gadael yng Nghymru a'r anawsterau y mae'r awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth eu symud a chael gwared arnynt. Nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol yr holl bwerau sydd eu hangen i ddiwygio'r cyfnodau rhoi rhybudd yn Rheoliadau Symud a Chael Gwared â Cherbydau 1986, ond yr ydym yn cydweithio â Llywodraeth y DU i ystyried sut y gellid bwrw ymlaen â diwygiadau.

*Tynnwyd Cwestiwn 14 (OAQ18542) yn ôl.*

### **Delio â Charthffosiaeth**

**C15 Janice Gregory:** Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod y gallu i ddelio â charthffosiaeth yn cael ei ystyried yn y broses o gynllunio datblygiadau tai newydd? (OAQ18540)

**Sue Essex:** Yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd, mae 'Polisi Cynllunio Cymru' yn datgan y dylid ystyried faint y mae'r system bresennol yn gallu ymdopi ag ef a'r angen am gyfleusterau ychwanegol wrth baratoi cynlluniau datblygu unedol ac wrth ystyried ceisiadau cynllunio unigol.